

Dyddiad cyhoeddi: 21 Rhagfyr 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:

"Pa undebau llafur y mae Trafnidiaeth Cymru yn eu cydnabod a faint yw'r gwariant blynyddol ar amser cyfleuster undebau llafur?"

Ar ôl adolygu'ch cwestiynau, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Mae Trafnidiaeth Cymru (gan gynnwys gwasanaethau arlwyo Trafnidiaeth Cymru) a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod yr undebau canlynol:

- Undebau'r Gwasanaeth Sifil: PCS, Prospect a FDA
- Undebau'r Rheilffyrdd: Aslef, RMT, TSSA ac Unite

Nid oes cynrychiolwyr undeb o fewn Trafnidiaeth Cymru (yr is-gwmni sydd ym mherchnogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru), sy'n golygu bod y gwariant blynyddol ar gyfleuster undebau llafur yn sero.

Mae nifer o gynrychiolwyr undebau llafur o fewn Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (ym mherchnogaeth KeolisAmey Operations, sef gweithredwyr Masnachfaint Cymru a'r Gororau hyd 7 Chwefror 2021), ond, byddai cyfrifo'r gwariant blynyddol ar gyfleuster undebau llafur yn fwy na'r amser a'r terfyn ar gyfer cost prosesu cais fel yr amlinellir yn Adran 12 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn yr achos hwn, bydd cyflenwi'r wybodaeth yn cynnwys chwilio helaeth â llaw drwy dros 2,500 o ffeiliau AD ar draws sawl lleoliad, sydd wedi'u cadw'n ddiogel, a gwaith pellach yn tynnu'r wybodaeth o gofnodion, ei golygu a'i pharatoi i'w datgelu.

Mae Adran 12 Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i wrthod cais lle mae'n amcangyfrif y bydd y gost o ddelio â'r cais yn uwch na £6000. Mae Rheoliad 4(3) y Rheoliadau Ffioedd yn nodi y gall awdurdod cyhoeddus ond ystyried y costau mae'n disgwyl yn rhesymol eu codi wrth gyflawni'r gweithgareddau canlynol a ganiateir wrth gydymffurfio â'r cais:

- pennu a yw'r wybodaeth yn cael ei chadw;
- lleoli'r wybodaeth, neu'r ddogfen sy'n ei chynnwys;
- adalw'r wybodaeth, neu'r ddogfen sy'n ei chynnwys; a
- thynnu'r wybodaeth o ddogfen sy'n ei chynnwys.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi pennu y byddai'r gost o brosesu'ch cais yn uwch na'r terfyn o £600.

Ni allwn ddarparu'r gwariant blynyddol ar amser cyfleuster undebau llafur gan dîm arlwyo Trafnidiaeth Cymru. Nid yw'r wybodaeth ar gael, gan mai dim ond ym mis Ionawr eleni y daeth y tîm arlwyo yn rhan o Trafnidiaeth Cymru.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o fudd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru